**Cofnodion Bwrdd TrC**

**18 Gorffennaf 2024**

09:00 – 16:00

Lleoliad – Llys Cadwyn a Teams

---

**Yn Bresennol:** Scott Waddington (Cadeirydd), Alun Bowen, Heather Clash, Vernon Everitt, Sarah Howells, Nicola Kemmery a James Price.

**Hefyd yn bresennol:** Peter McDonald (Llywodraeth Cymru), Jeremy Morgan, Andrew Morgan, Alan McCarthy a Gareth Pembridge (Arsylwr, eitemau 1 i 11).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ymddiheurodd Alison Noon-Jones.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 20 Mehefin 2024 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Atgoffwyd y Bwrdd o'r angen i baratoi a chynllunio cyn ymgymryd â thasgau a allai beri risg i iechyd a diogelwch, ac i warchod rhag bod yn hunanfodlon.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Mae ymchwil i ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn awgrymu y gellid ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer telewerthu ac ymholiadau cwsmeriaid a galluogi pobl i ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.

**2. Diogelwch**
Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r adroddiad Iechyd, Diogelwch a Chadernid a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Sefydlu gweithgor diogelwch seiber i wella diogelwch TrC a lliniaru risgiau ar draws y sefydliad.

- Coladu a chyflwyno'r Adroddiad Diogelwch Blynyddol i Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos blwyddyn gadarnhaol ar draws amrywiaeth o weithgareddau.
- Cynnydd mewn damweiniau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu a'r angen i ganolbwyntio ar ymosodiadau a lefelau cynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd dwy ddamwain i'w hadrodd i RIDDOR yn ystod y cyfnod.
- Cymryd rhan mewn ymarfer pen bwrdd amlasiantaeth ar gyfer cadernid busnes er mwyn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am weithgareddau gyda Pullman Rail a seilwaith/trawsnewid.

**3. Rheoli risg yn strategol**

Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r Gofrestr Risg Genedlaethol i gyd-fynd â risgiau strategol TrC ac i neilltuo perchnogion a mesurau lliniaru.

Cynhaliwyd adolygiadau risg manwl o Linellau Craidd y Cymoedd a gwnaed gwelliannau i'r broses lle bo angen.

Nododd y Bwrdd fân newidiadau i risgiau ar lefel y Bwrdd.

*Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod*.

**4. Adroddiad a diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Roedd perfformiad gweithredol rheilffyrdd yn dda ar y cyfan dros y mis diwethaf gyda lefelau boddhaol o ran yr amser mae teithwyr yn ei golli (PTL) a nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau gwasanaeth cyson a chadarn. Mae heriau'n parhau ar Linellau Craidd y Cymoedd o ganlyniad i'r amserlen newydd, ac mae hynny wedi arwain at fwy o filltiroedd a llai o gyfleoedd i adfer y gwasanaeth pan fydd heriau'n codi. Trafododd y Bwrdd yr angen am waith cynnal a chadw rhagweithiol ac adweithiol gwell yn ogystal â chynllun adfer gwasanaeth clir. Rheolir y risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefelau da presennol o ran yr amser mae teithwyr yn ei golli (PTL) ac maent yn cynnwys cadernid Class 150, cyflwyno unedau ETCS 197 a rheoli cyfnod yr Hydref heb durn yng Ngogledd Cymru.
- Mae'r gwaith o ddarparu'r rhwydwaith-T yn parhau, a gwelwyd cynnydd cryf o ran cynyddu tocynnau a chwsmeriaid dros y ddau fis diwethaf. [redacted]
- Penodwyd Pennaeth Trafnidiaeth Ranbarthol i arwain y gwaith o gynllunio trafnidiaeth ranbarthol a datblygu sylfaen dystiolaeth sylfaenol.
- [redacted]
- Mae gwaith yn parhau gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol ar gynlluniau i fasnachfreinio bysiau ac ar y broses o bontio i fasnachfraint. Dros y mis diwethaf, mae gwaith wedi cael ei wneud ar opsiynau polisi wedi'u costio i ddod â syniadau lefel uchel ynghylch bysiau i ben ac i symud ymlaen at gam cynllunio manylach. Fodd bynnag, mae'r gwaith presennol yn ceisio cyfyngu ar gyfres o opsiynau cyfun ar gyfer masnachfreinio sydd wedi'u cyfyngu gan y gyllideb.  Mae opsiynau'n cael eu datblygu rhag ofn y bydd rhagor o gyllideb ar gael.

- Mae Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd ar agor ac yn gweithio, a chafwyd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr hyd yma. Diolchodd y Bwrdd i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddod â'r prosiect i ben ac am gyfnod agor llwyddiannus.
- Mae risgiau'n parhau o ran rhoi newid technolegol sylweddol ar waith ar y system Metro. Mae'r Grŵp Integreiddio Rheilffyrdd yn dod â materion i'r amlwg ac yn gweithio drwyddynt.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phrif Swyddog Gweithredol CAF yn Llundain ddiwedd mis Mehefin i gyflymu'r gwaith o ddarparu trenau newydd a gweithio drwy faterion masnachol cysylltiedig. Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol a chytunwyd ar broses.
- Ymdriniwyd yn dda â'r digwyddiadau diweddar yn Stadiwm y Mileniwm a chafwyd adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid.
- [redacted]

**5. Cyllid**
Cafodd y Bwrdd y prif negeseuon o Gyfrifon Rheoli mis Mehefin. [redacted]

*Gadawodd Alan McCarthy y cyfarfod.*

[redacted]

**6. Cyfarfodydd is-fyrddau**
Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd diweddar byrddau Ffeibr TrC a Rheilffyrdd TrC. Cymeradwyodd y Bwrdd Rheilffyrdd adroddiad blynyddol Rheilffyrdd TrC Cyf a chynhaliwyd archwiliadau dwfn i faterion masnachol a diogelwch.

[redacted]

**7. Is-bwyllgorau**
Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cwrdd y diwrnod ar ôl cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Roedd y cyfarfod yn cynnwys y sesiwn ffurfiol gyntaf ar TG.

Roedd y Pwyllgor Prosiectau Mawr diweddar wedi adolygu amrywiaeth o brosiectau seilwaith parhaus.

*Gadawodd Peter McDonald y cyfarfod.*

**8.Bwrdd Llywio**
Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd Llywio.

**9. Llinellau Craidd y Cymoedd**
*Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei wneud i ddod â'r gwaith adeiladu i ben a pharatoi ar gyfer gweithgareddau comisiynu mawr yn y dyfodol. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y paratoadau ar gyfer y digwyddiad trydaneiddio nesaf a'r gwaith rheoli rhanddeiliaid cysylltiedig; y cynnydd da a wnaed gyda depo Ffynnon Taf; y profion EMC llwyddiannus ar gerbydau Class 756, a'r hyfforddiant gyrwyr cysylltiedig sy'n parhau i fod yn unol â'r targed; a chomisiynu Class 398.

[redacted]

[redacted]

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith parhaus i dynhau'r broses rheoli newid, gan gynnwys defnyddio mwy o gontractau cost targed pris sefydlog.

*Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.*

**10. Gwasanaethau Arloesi TrC**

*Ymunodd Geoff Ogden â'r cyfarfod.*

Adolygodd y Bwrdd gynllun busnes Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf a'i gymeradwyo, a chytunodd i Brif Swyddog Gweithredol TrC anfon llythyr cylch gwaith ar gyfer 2024/25.

*Gadawodd Geoff Ogden y cyfarfod.*

**11. Adrodd Corfforaethol**

*Ymunodd Michael Pearce â'r cyfarfod.*

Cafodd 61% o gerrig milltir chwarter cyntaf y cynllun busnes eu cyflawni, sy'n gynnydd o 55% o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd. Mae perygl yn gysylltiedig â chyflawni dwy garreg filltir ger Gorsaf Pontypridd a refeniw dosbarth cyntaf. Nodwyd bod y targed a'r garreg filltir sy'n gysylltiedig â refeniw dosbarth cyntaf wrthi'n cael eu hadolygu.

Cynhyrchwyd adroddiad dangosydd perfformiad allweddol corfforaethol y chwarter cyntaf, ond nid yw wedi cael ei gyhoeddi eto. Trafododd y Bwrdd yr angen i sicrhau naratif ategol clir **[Gweithredu Lewis Brencher]**.

*Gadawodd Michael Pearce y cyfarfod.*

**12. Olyniaeth talent**

*Ymunodd Marie Daly â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i ddatblygu dull gweithredu TrC o ran rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Nododd y Bwrdd y diweddariad a oedd yn ymdrin â'r dirwedd bresennol; egwyddorion cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent arfaethedig; manteision datblygu llif o dalent; cynllun rheoli olyniaeth, a dosbarthu a nodi talent.

**13. Sesiwn gyfrinachol**

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**